Dechreuodd y ras geir am 08:45 a gorffenodd am 14:35.
Am faint o amser y parodd y ras?

Mae'r haul yn machlud am 19:30 ac yn codi eto am 06:30.

Sawl awr o dywyllwch a geir?

Sawl awr o olau dydd?

Mae trên yn gadael am 09:45 ac yn cyrraedd am 15:46.
Pa mor hir yw'r siwrnai?

Dyma amseroedd cychwyn a stopio ar beiriant fidio.

| | |
|---|---|
| CYCHWYN | 14:45 |
| STOPIO | 17:25 |

Am faint o amser y bu'r fidio'n recordio?

Mae pedwar plentyn mewn tîm ras gyfnewid yn nofio mewn ras.

Dyma eu hamseroedd ar gyfer pob lap.

| | | |
|---|---|---|
| LAP 1 | Teleri | 92.4 eiliad |
| LAP 2 | Ffion | 86.3 eiliad |
| LAP 3 | Hefin | 85.1 eiliad |
| LAP 4 | Eirian | 91.8 eiliad |

Beth yw cyfanswm eu hamser ar gyfer y pedair lap?